# Croeso i'r Uned dan 5!




Annwyl Rieni,
Croeso cynnes iawn i chi i flwyddyn newydd a thymor newydd yn yr Uned dan 5, a chroeso arbennig iawn i blantos bach y Meithrin.
Hoffem rannu ychydig o wybodaeth pwysig gyda chi ar ddechrau'r flwyddyn.

## Staff yr Uned



Mrs Elinor Rogers
Arweinydd yr Uned




Mrs Mared Owen
Athrawes



Mrs Elen Owen
Uwch gymhorthydd



Mrs Ceri Roberts
Uwch gymhorthydd



Mrs Emma Evans
Cymhorthydd



Mrs Glenda Jones
Cymhorthydd



Mr Wil Owen
Cymhorthydd

## Labelu!

A fyddech mor garedig a sicrhau fod enw eich plentyn yn glir ar **siwmperi, cotiau, bagiau, bocsys bwyd** ac **esgidiau'r** plant os gwelwch yn dda.






## Ein Thema!



Ein prosiect cyntaf eleni ydy **'Rydw i'n Arbennig.'** Byddwn yn trafod gwahaniaethau rhwng unigolion, yn dysgu am wahanol rannau y corff, yn trafod teimladau ac emosiynau ac anghenion personol megis hylendid a bwyta'n iach.

## Ymarfer Corff!

Bydd plant y **Dosbarth Derbyn** yn cael gwers ymarfer corff bob pnawn dydd **Gwener**. Gofynnwn yn garedig i'r plant ddod i'r ysgol yn **gwisgo** trainers/esgidiau addas a joggers/leggings/shorts du ar **ddydd Gwener** fel na fydd rhaid newid yn yr ysgol. Gofynnwn iddynt wisgo siwmper a chrys polo arferol Pen Barras hefyd os gwelwch yn dda.

## Seesaw!

Byddwn yn defnyddio 'Seesaw' o dro i dro i rannu lluniau o'r gweithgareddau hwyliog sy'n digwydd yn yr Uned dan 5. Gallwch gael mynediad i Seesaw ar gyfrifiadur, iPad neu dabled. Bydd manylion y cyfri yn cael ei anfon i blant y Meithrin yr wythnos nesaf. Bydd plant y Derbyn yn parhau i dderbyn lluniau ar y cyfrif sydd ganddynt yn barod. Gofynnwn yn garedig i chi beidio cysylltu ar Seesaw ynglyn â materion personol ond i roi galwad ffôn neu e bostio yr ysgol i drefnu sgwrs os gwelwch yn dda.

## Eiddo o adref.

Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau nad yw eich plentyn yn dod ag unrhyw deganau o adref i'r ysgol os gwelwch yn dda.

## Pwysig!

Os oes unrhyw newidiadau yn y drefn arferol o gasglu eich plentyn o'r ysgol, gofynnwn i chi adael i'r staff wybod trwy roi galwad ffôn neu ebostio'r ysgol os gwelwch yn dda.

## Sesiwn Anwytho i'r Dosbarth Derbyn

Byddwn yn cynnal sesiwn anwytho/galw mewn i rhieni plant y **Dosbarth Derbyn** ar **brynhawn dydd Llun Medi 22ain rhwng 3:30yp a 5:00yp**, lle bydd cyfle i chi alw mewn i gyfarfod y staff.

Yn y cyfamser, mae croeso i chi gysylltu â ni os hoffech drafod unrhyw beth.
swyddfa@penbarras.cymru

**Edrychwn ymlaen yn fawr i gyd-weithio gyda chi yn ystod y flwyddyn.**

**Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.**
**Staff yr Uned.**